Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Herbert Thompson
# Plymouthwood Road
# Trelái
# Caerdydd
# CF5 4XD

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn gwasanaethu ardal Trelái yng Nghaerdydd. Mae 466 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 73 yn y feithrinfa. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Gall disgyblion ymuno â'r feithrinfa yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Daw mwyafrif y disgyblion o gefndir ethnig gwyn, gyda'r gweddill o grwpiau ethnig cymysg. Mae 17% o ddisgyblion â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Nid oes unrhyw blant yn siarad Cymraeg mamiaith.

Ar hyn o bryd, mae 17 athro amser llawn a saith athro rhan-amser yn yr ysgol. Mae tua 51% o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan oddeutu 45% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llawer uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth yn 2012 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2008.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn 2013-2014 yw £3,805. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £7,890 a'r lleiafswm yw £2,856. Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn safle 35 o'r 96 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o bwyntiau cychwyn isel pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau da;
- mae ethos hapus, cynhwysol a gofalgar yno, sy'n sicrhau bod lle amlwg i lais y disgybl yn holl waith a bywyd yr ysgol;
- mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol a heriol;
- mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ar draws yr ysgol;
- mae'r holl aelodau staff yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm; ac
- mae partneriaethau effeithiol, yn enwedig gyda rhieni a'r gymuned, yn cael effaith gadarn iawn ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- mae'r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethol yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn;
- mae'r ysgol yn creu'r amodau gorau posibl i bob disgybl unigol ddatblygu a ffynnu;
- mae'r ysgol yn chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol i wella'r ddarpariaeth;
- mae gweithdrefnau monitro da iawn yn sicrhau bod arfarniadau o bob agwedd ar waith a bywyd yr ysgol wedi'u seilio ar dystiolaeth gywir, gynhwysfawr ac uniongyrchol; ac
- mae'r holl staff yn ystyried ac yn arfarnu'n gydwybodol effaith eu haddysgu ar les a safonau disgyblion ac maent yn cynorthwyo'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Parhau i rannu arfer dda iawn yr ysgol gydag ysgolion eraill

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn y feithrinfa gyda lefelau medrau ymhell islaw'r lefelau a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Erbyn i'r disgyblion adael Blwyddyn 6 a symud i addysg uwchradd, mae llawer ohonynt yn cyflawni'n uchel, yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae hyn yn gynnydd rhagorol o bwyntiau dechrau cymharol isel y disgyblion pan ddechreuant yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o leiaf ar gyfer eu hoedran. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n dilyn rhaglenni ymyrraeth ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn mewn cyfnod byr. Mae hwn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar draws yr ysgol. O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymateb yn hyderus iawn i gwestiynau athrawon. Cynigiant ymatebion diddorol a chreadigol yn y Cyfnod Sylfaen ac mae llawer o ddisgyblion yn dangos ystod addas o eang o eirfa pan fyddant yn disgrifio'r gwaith a wnânt. Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gryf. Mae disgyblion mwy abl yn aml yn siarad yn hyderus mewn brawddegau estynedig, gan ddefnyddio iaith yn effeithiol.

Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng seiniau a geiriau a gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon yn dda wrth fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn trafod yr hyn maent wedi'i ddarllen yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda iawn i lyfrau ffuglen a ffeithiol. Mae ganddynt fedrau darllen da ac mae llawer yn darllen er pleser. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir gyda rhuglder da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu dethol gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o destunau a ffynonellau eraill yn dda.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu gwaith ysgrifenedig yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dewis eang o eirfa. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion mwy abl yn aml yn ysgrifennu'n estynedig mewn ffordd ddiddorol. Mae llawer ohonynt yn sillafu geiriau'n gywir ac yn defnyddio atalnodi priodol yn dda. At ei gilydd, mae medrau cyflwyno a llawysgrifen disgyblion yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrif i 100 yn hyderus ac yn adio a thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Defnyddiant gyfuniadau gwahanol o arian i dalu am eitemau hyd at 20 ceiniog. Mae'r

rhan fwyaf yn deall ac yn defnyddio mesuriadau syml ac mae ganddynt wybodaeth dda am siâp. Maent yn dehongli gwybodaeth ar graff bloc yn gywir. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau mathemategol syml mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif da. Mae ganddynt amgyffrediad cadarn iawn o werth lle a gallant luosi a rhannu gan ddefnyddio degolion yn eithriadol o dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt amgyffrediad da o ffracsiynau cyfartaleddau ystadegol a thebygolrwydd syml. Mewn gwaith ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am fathemateg yn hyderus wrth fynd i'r afael â phroblemau. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, defnyddiant ddegolion a thalgrynnu i wneud amcangyfrifon synhwyrol wrth astudio tymheredd a defnyddio medryddion.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg a datblygant eirfa fwyfwy eang. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r Gymraeg a ddefnyddir gan yr athro y tu allan i wersi Cymraeg. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda, ond nid yw eu medrau darllen wedi'u datblygu cystal.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd perfformiad yn y deilliant disgwyliedig mewn datblygiad mathemategol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg ac yn cyd-fynd â'r cyfartaledd mewn llythrennedd. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn y deilliant disgwyliedig yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ym mhob maes. Roedd perfformiad disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ar gyfer llythrennedd, ond islaw'r cyfartaledd ar gyfer datblygiad mathemategol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deiliant uwch wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2013, fe wnaeth perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) osod yr ysgol yn yr 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ym mhob pwnc. At ei gilydd, mae perfformiad yr ysgol ar gyfer y pedair blynedd diwethaf, heblaw mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011, wedi gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg, ac yn y 25% uchaf ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf.

Yn 2013, ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), roedd perfformiad disgyblion mewn Saesneg a mathemateg uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a thua'r cyfartaledd ar gyfer gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ym mhob pwnc wedi gosod yr ysgol yn yr 50% is. At ei gilydd, dros y pedair blynedd diwethaf, heblaw Saesneg yn 2011 a mathemateg yn 2012, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r disgwyl wedi'i gosod yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

### Lles: Rhagorol

Mae datblygiad a chynnydd lles disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad i'w gwaith ac maent yn awyddus i ddysgu. Maent yn mwynhau'r ysgol, yn gweithio'n galed ac yn

ymfalchïo yn eu gwaith. Teimlant fod yr ysgol yn eu gwerthfawrogi ac mae hyn yn gwella eu hunanhyder ac yn cynorthwyo eu lefelau cyflawniad cynyddol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ganddynt gryn hyder mewn oedolion ac yn gwerthfawrogi'r gofal, cymorth ac arweiniad a roddant. Mae ymddygiad yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gofal a charedigrwydd mawr tuag at eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a moesgar. Siaradant ag oedolion yn hyderus ac maent yn hapus i droi at unrhyw aelod staff os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i ddilyn ffordd iach o fyw ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan weithgar iawn yn yr ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael iddynt.

Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wella'u dysgu eu hunain yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o ba mor dda maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau ychwanegol. Cwblhânt eu dyletswyddau mewn ffordd hyderus ac aeddfed. Mae nifer o grwpiau gweithgar iawn ar gyfer disgyblion yn ategu cyngor yr ysgol yn llwyddiannus ac yn cynrychioli llais y disgybl yn effeithiol. Mae'r grwpiau hyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad amgylchedd yr ysgol a lles yr holl ddisgyblion. Er enghraifft, mae cyngor yr ysgol yn archwilio ffyrdd o wella'r cysylltiadau â chyngor y rhieni ac mae'r 'Llysgenhadon Ifanc' wedi gweithio gyda phob dosbarth i gytuno ar 'Siarter y Dosbarth'.

Cyn 2012-2013, roedd cyfraddau presenoldeb cyffredinol yr ysgol yn ei gosod yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, bu gwelliant graddol flwyddyn ar ôl blwyddyn ac roedd y gyfradd bresenoldeb gyffredinol y llynedd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r gwelliant hwn wedi parhau yn y flwyddyn academaidd bresennol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth iawn o brofiadau dysgu heriol a diddorol i ddisgyblion o bob gallu. Mae'r rhain yn gosod disgwyliadau uchel, priodol i ddisgyblion ac yn cefnogi ymgysylltiad gweithgar iawn disgyblion â'u gwaith. Mae trefniadau hynod effeithiol ar waith sy'n caniatáu i staff gynllunio gyda'i gilydd yn rheolaidd ac maent yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion fel bod dysgu yn bwrpasol ac yn berthnasol i ddisgyblion. Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau o ansawdd da sydd ar gael yn yr ysgol a'r cyfleoedd yn y gymuned leol.

Mae'r holl athrawon yn nodi sawl ffordd fuddiol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi ac ymestyn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Darparant her bwrpasol i ddisgyblion mwy abl ac ystod ragorol o raglenni ymyrryd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda trwy ddarparu ystod addas o weithgareddau datrys problemau.

Mae staff addysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd diddorol i ddysgu am eu bro, a hefyd am Gymru a'i hanes a'i diwylliant.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eithriadol o eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol, ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol, sy'n ymestyn ac yn cynorthwyo dysgu disgyblion yn arbennig o dda. Mae llawer o'r rhain wedi'u cysylltu â gweithgareddau yn y gymuned, fel defnyddio'r ganolfan hamdden leol i ddatblygu medrau chwaraeon disgyblion. Yn ystod y 'diwrnod dod o hyd i dy dalent', mae ymwelwyr â'r ysgol yn dangos eu doniau a'u medrau i'r disgyblion er mwyn galluogi'r disgyblion i ddarganfod a chael blas ar ystod newydd o fedrau.

Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy leihau gwastraff ac ailgylchu deunyddiau ar gyfer arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth. Mae pwyllgor masnach deg yr ysgol iawn yn rhagweithiol iawn yn esbonio pwysigrwydd masnachu teg i ddisgyblion eraill, a'r effaith y gall ei chael ar helpu ffermwyr a masnachwyr mewn gwledydd llai cyfoethog. O ganlyniad i gysylltiadau cadarn yr ysgol â llawer o wledydd tramor, fel Indonesia, India a'r Almaen, mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Ysgolion Rhyngwladol.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae'r safonau addysgu cyson uchel ar draws yr ysgol yn ffactor arwyddocaol yn y safonau a lles rhagorol a gyflawnir gan ddisgyblion. Ar draws yr ysgol, mae'r holl athrawon yn cynllunio pob gwers yn drylwyr, gydag amcanion dysgu clir. Sicrhânt fod yr holl ddisgyblion yn deall beth a ddisgwylir ohonynt yn glir. Mae bron pob un o'r gwersi yn adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio tasgau i fodloni anghenion cymaint â phum grŵp gallu gwahanol yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni'n dda mewn gwersi. Gwnânt ddefnydd da o raglenni unigol a defnyddiant ystod helaeth o strategaethau ymyrryd arbenigol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r rhain yn symbylu ac ysgogi disgyblion i ddysgu'n dda iawn ac maent yn effeithiol iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, yn dilyn dadansoddiad manwl o ddeilliannau asesu, caiff disgyblion eu grwpio'n ofalus mewn grwpiau gallu ar gyfer iaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni i'w botensial llawn.

Mae'r holl oedolion yn yr ysgol yn fodelau da iawn o ymddygiad ar gyfer disgyblion ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio cadarnhaol iawn â nhw. Mae disgyblion yn hyderus iawn i ofyn am help os oes ei angen. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a

datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o bob disgybl. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i hyrwyddo safonau da a'r ymddygiad da iawn a ddangosir gan ddisgyblion.

Mae'r holl athrawon yn olrhain perfformiad disgyblion yn effeithiol iawn a gosodant dargedau clir er mwyn bodloni eu hanghenion dysgu. Mae gan yr ysgol gofnodion manwl iawn ar gyfer pob disgybl, yn cwmpasu pob agwedd ar waith. Caiff diwrnodau adolygu penodol eu cynllunio i asesu cynnydd yr holl ddisgyblion yn ofalus ac i nodi eu hanghenion yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn cael cymorth targedig da naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu drwy raglenni ymyrraeth sydd wedi'u cynllunio'n dda.

Mae'r holl athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi adborth llafar clir a defnyddiol i ddisgyblion, sy'n eu helpu i ddeall pa mor dda maent yn ei wneud a sut gallant wella'u gwaith. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ac arweiniad o ansawdd da. Maent yn annog disgyblion i fyfyrio ar y sylwadau ysgrifenedig a wnaethant a monitro eu cynnydd eu hunain yn erbyn y sylwadau hyn. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod yn glir beth i'w wneud er mwyn cyflawni eu targedau unigol. Darparant gyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

Mae rhieni'n derbyn adroddiadau defnyddiol bob tymor ar berfformiad presennol a thargedau eu plentyn. Mae'r adroddiadau blynyddol yn fanwl a disgrifiant yn glir pa mor dda y mae disgyblion yn ei wneud, ynghyd â thargedau clir ar sut gallant wella'u gwaith. Caiff disgyblion a rhieni eu hannog i roi sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ffocws ar les a gofal disgyblion yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer cydlynu gwaith gofal, cymorth ac arweiniad yr ysgol yn manteisio'n dda iawn ar ddealltwriaeth dda iawn staff o'r ardal a'r teuluoedd sy'n cael eu gwasanaethu gan yr ysgol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn gydag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol fel cymorth ymddygiad ac ymwelwyr iechyd. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ffynnu ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at eu cynnydd da iawn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gymuned fywiog, gyda rheolau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu'n glir. Rhoddir sylw cyson i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ymddygiad priodol trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae aelodau staff yn ymdrin ag unrhyw enghreifftiau o ymddygiad anaddas yn gyflym ac yn effeithiol. Rhoddir sylw da iawn i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am fanteision ffordd iach o fyw, gan gynnwys ymarfer corff rheolaidd. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae ysgolion eraill yn defnyddio'r ysgol fel model o arfer dda mewn datblygu chwaraeon.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r pwyslais ar werthoedd cadarnhaol a pharch tuag at eraill yn nodwedd amlwg ar draws yr ysgol. Caiff y rhain eu hyrwyddo'n rheolaidd mewn gwersi i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion

ddealltwriaeth dda o'r angen i barchu ei gilydd a'u hunain. Cânt eu cefnogi ymhellach trwy gyd-addoli effeithiol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gael llais rheolaidd a dylanwadol ar fywyd bob dydd yr ysgol yn nodwedd ragorol.

Mae'r strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol i wella presenoldeb yn hynod effeithiol ac yn fodel o arfer ragorol.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn ac yn galluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da iawn. Caiff eu hangen unigol ei reoli a'i gydlynu'n effeithiol o'r adeg pan fyddant yn dechrau'r ysgol fel bod pob aelod staff yn deall y cymorth sydd ei angen arnynt yn glir. Mae eu cynnydd yn cael ei asesu'n rheolaidd a defnyddir y wybodaeth yn effeithiol iawn i gynllunio gweithgareddau addas a rhoi naill ai cymorth unigol neu gymorth mewn grwpiau ymyrraeth. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn defnyddio ystod eang iawn o raglenni ymyrraeth llwyddiannus i helpu disgyblion i wella'u medrau cymdeithasol, emosiynol, llythrennedd a rhifedd. Caiff rhieni wybodaeth dda ac maent yn cymryd rhan yn llawn mewn sefydlu ac adolygu cynllun cymorth ymddygiad neu gynllun addysg eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a digynnwrf sy'n cynnig amgylchedd dysgu cefnogol a diogel iawn i ddisgyblion, lle rhoddir gwerth cyfartal ar bob disgybl. Mae rhieni, staff a disgyblion i gyd yn sôn am yr ymdeimlad cryf o ofal, cynnwys a pherthyn sy'n bodoli yn yr ysgol, beth bynnag yw cefndir y disgybl. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu deall gwahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw, a dangos parch a diddordeb tuag at amrywiaeth eang o hiliau, diwylliannau a chrefyddau.

Mae disgyblion yn chwarae rhan helaeth mewn penderfynu ar y gwerthoedd allweddol sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i fynegi ystyr pob un o'r gwerthoedd yng ngwaith bob dydd yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn mynd i'r afael ag agweddau ystrydebol yn llwyddiannus ac yn annog pob disgybl i wneud eu gorau glas. Mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, o oedran ifanc iawn, yn credu bod ganddynt ddawn i'w meithrin a'i choleddu. O ganlyniad, mae lefelau uchel o hunan-barch a hyder ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud yn dda yn yr ysgol.

Mae adeiladau'r ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion yn dda. Mae digon o le mewn ystafelloedd dosbarth i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu yn cynorthwyo addysgu a dysgu yn effeithiol iawn. Mae gan yr ysgol adnoddau arbennig o dda ar gyfer datblygu TGCh, a defnyddir yr ystafell TGCh yn helaeth drwy gydol y dydd. Mae arddangosfeydd yn dathlu llwyddiannau disgyblion yn dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at amgylchedd dysgu bywiog, cynhwysol a chroesawgar. Anogir disgyblion i ymfalchïo yn eu llwyddiannau.

Mae'r ysgol wedi datblygu'r amgylchedd awyr agored yn llwyddiannus, yn enwedig i'r disgyblion iau, ac mae'n cynnwys gardd helyg o safon uchel. Trefnir yr ardal awyr agored yn wahanol feysydd dysgu, sy'n darparu cyfleoedd da iawn trwy weithgareddau chwarae wedi'u trefnu'n dda i ddisgyblion wella'u medrau cymdeithasol, emosiynol a dysgu cynnar.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o amrywiaeth o adnoddau yn y gymuned i ategu a chyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'n gwneud defnydd da iawn o ardal gemau amlddefnydd gymunedol i ymestyn medrau chwaraeon ei disgyblion ymhellach.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol mewn ffordd ddynamig ac effeithiol iawn. Mae hi wedi cyfleu gweledigaeth glir i'r holl staff, llywodraethwyr a rhieni ynghylch eu disgwyliadau am welliant. Caiff gefnogaeth dda iawn gan yr uwch dîm rheoli. Mae'r arddull arwain wasgaredig yn hynod effeithiol, gan arwain at ddeilliannau rhagorol gan ddisgyblon. Maent wedi cynllunio a threfnu systemau a gweithdrefnau clir i fodloni'r targedau gwella a nodwyd. Mae'r holl staff yn gweithio'n arbennig o dda fel tîm ac yn rhannu ymrwymiad â ffocws da i gyflawni'r targedau hyn.

Mae staff yn cynllunio'n fanwl iawn i nodi meysydd i'w datblygu ac i roi cynlluniau gwella effeithiol ar waith. Mae trefniadau effeithiol a phenodol iawn ar waith i lywio datblygiad proffesiynol athrawon a'r rheolaeth ar eu perfformiad. Mae trafodaeth agored ynghylch addysgu a dysgu effeithiol ymhlith staff a pharodrwydd i ddysgu o'i gilydd. Enghraifft o arfer arloesol yw ffilmio addysgu a dysgu yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cael ei ddadansoddi'n ddiweddarach i nodi arfer dda a meysydd i'w gwella ymhellach. Mae'r prosesau hyn wedi ategu datblygiad addysgu o ansawdd uchel ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol iawn. Mae llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth fanwl am berfformiad yr ysgol ac yn ei dwyn i gyfrif yn drylwyr o ran y safonau, y lles a'r ansawdd a gyflawnir ganddi. Maent yn dadansoddi adroddiadau monitro a data perthnasol yn ofalus ac yn llwyr ymwybodol o'r materion sy'n deillio ohonynt. Cyfrannant yn helaeth at gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi'i integreiddio'n dda ar draws pob maes dysgu. Mae staff wedi'i weithredu'n llwyddiannus iawn ac, o ganlyniad, mae'r ysgol wedi gwella cyflawniadau gwahanol grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai y mae Saesneg yn ail iaith iddynt. Mae asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n effeithiol iawn o ran sicrhau bod cynnydd disgyblion a'r safonau a gyflawnant yn cael eu monitro'n drylwyr, a bod disgyblion yn cymryd rhan yn eu hasesiadau eu hunain ac asesiadau disgyblion eraill yn rheolaidd. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu 'medrau meddwl' yn nodwedd amlwg yn y rhan fwyaf o wersi.

## Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol. Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr, yn gadarn ac wedi'i sefydlu'n dda, ac mae'n cynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at y broses hunanarfarnu. Gwnânt gyfraniadau rheolaidd drwy'r amrywiol bwyllgorau a grwpiau gweithredu neu trwy flychau awgrymiadau unigol sydd wedi'u gosod mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae eu barn ar strategaethau i hybu ymddygiad da, er enghraifft, wedi arwain at weithgareddau wedi'u trefnu yn ystod yr egwyl ginio. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo bod eu barn yn cael eu cymryd o ddifrif.

Mae gweithdrefnau o ansawdd uchel, gan gynnwys monitro llyfrau gwaith disgyblion, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a sylw trylwyr i ddata yn rhoi darlun clir a chywir iawn i bawb yn yr ysgol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae deilliannau hunanarfarnu yn cael eu dadansoddi'n ofalus bob hanner tymor i bennu'r cynnydd a wna pob disgybl. Mae aelodau staff sydd â chyfrifoldebau arweiniol am feysydd y cwricwlwm yn gweithio'n agos gydag athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu o bob grŵp blwyddyn i adolygu cynnydd, y ddarpariaeth a'r targedau i ddisgyblion. Mae hyn wedi arwain at gymuned ddysgu gref iawn lle y mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol mewn timau.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys ffocws cryf ar wella deilliannau disgyblion. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau gweithredu wedi'u diffinio'n glir a thargedau heriol. Mae'n cynnwys costau gofalus gydag amserlenni realistig ar gyfer eu cwblhau. Mae'r holl aelodau staff yn monitro cynnydd yn rheolaidd, yn drylwyr ac yn gywir. Er enghraifft, mae'r ysgol yn arfarnu'r cynnydd a wna disgyblion mewn rhaglenni ymyrraeth, wedi'i seilio'n ofalus ar gynnydd disgyblion o un deilliant/lefel i'r nesaf. Os oes angen, gwneir diwygiadau fel bod y gwaith i ddisgyblion unigol yn gweddu orau i'w hanghenion.

Mae cysylltiadau clir rhwng deilliannau hunanarfarnu, y blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol, y targedau a osodir i ddisgyblion a'r trefniadau monitro. Mae hyn yn arfer ragorol.

Mae'r ysgol wedi gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn effeithiol iawn ers yr arolygiad diwethaf.

## Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae partneriaethau hynod effeithiol gyda rhieni, gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymorth arbenigol a'r gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles disgyblion. Mae'r bartneriaeth â rhieni yn arbennig. Caiff rhieni lawer iawn o wybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol trwy gyngor yr ysgol, ymweliadau â'r Ganolfan i Rieni sydd wedi'i sefydlu'n dda, trwy gylchlythyron a thrwy wefan ysgol ganmoladwy iawn. Hefyd, maent yn chwarae rhan uniongyrchol yng ngwaith ysgol eu plant yn rheolaidd, er enghraifft trwy'r gweithgareddau dysgu rheolaidd ar y cyd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r ddarpariaeth 'Dechrau'n Deg' leol cyn i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol ac mae hyn yn helpu'r plant i ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin.

Mae gweithio ar y cyd â'r ysgol uwchradd leol yn helpu disgyblion drosglwyddo'n llwyddiannus i Flwyddyn 7. Mae'r trefniadau'n cynnwys ymweliadau wedi'u cynllunio'n dda ac ystod amrywiol o weithgareddau cwricwlaidd a bugeiliol. Mae cyfleoedd rheolaidd i athrawon o'r ddwy ysgol gydweithio, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg.

O ganlyniad i weithio ar y cyd â'r clwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd, caiff asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 eu cymedroli a'u safoni'n effeithiol, a chaiff portffolios gwaith manwl eu llunio. Ychwanegant drylwyredd priodol at y broses asesu ac maent yn llwyddo i roi gwybod i bob partner am y safonau y dylai disgyblion eu cyflawni. Mae athrawon yn eu defnyddio'n helaeth.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol iawn gyda nifer o sefydliadau hyfforddi, fel Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r gymuned, busnesau lleol, mudiadau chwaraeon ac eraill i wella profiadau dysgu'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae strategaethau effeithiol ac effeithlon iawn ar waith gan yr ysgol i reoli staff ac adnoddau. Mae'r ysgol yn dosbarthu cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu yn dda iawn er mwyn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'u harbenigedd a'u profiad yn llwyddiannus, yn enwedig mewn perthynas â chymorth i ddisgyblion agored i niwed ac addysgu TGCh, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

Mae'r amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon yn briodol. Mae trefniadau helaeth ar waith i reoli perfformiad yr holl staff, sy'n cael targedau datblygu personol sy'n eu herio'n briodol ac sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r holl aelodau staff yn cymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn rhannu arfer dda yn yr ysgol yn rheolaidd, er enghraifft trwy arsylwi ar ei gilydd yn addysgu, ac mae hyn wedi ategu safonau addysgu cyson uchel ar draws yr ysgol.

Caiff cyllid ei reoli'n eithriadol o dda ac mae'r penderfyniadau gwariant yn cyfateb yn agos i flaenoriaethau'r ysgol. Mae is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiad ariannol manwl i bob cyfarfod o'r corff llywodraethol, fel bod llywodraethwyr yn gallu adolygu effeithiolrwydd penderfyniadau gwariant.

Mae'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u pwyntiau cychwyn pan ddechreuant yn yr ysgol ac yn cyflawni'n dda iawn erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. O ystyried y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd uchel sawl agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiad mathemategol uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad personol a chymdeithasol yn cyd-fynd â chyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yn y deilliant disgwyliedig yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ym mhob maes.

Yn 2013, roedd perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch (deiliant 6) yn uwch nag mewn ysgolion eraill yn yr un teulu mewn llythrennedd a datblygiad personol a chymdeithasol, ond islaw ar gyfer datblygiad mathemategol. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol ac yn yr 50% is mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Yn 2013, roedd canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer pob pwnc. At ei gilydd, mae perfformiad yr ysgol yn y pedair blynedd diwethaf, heblaw mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011, wedi'i gosod yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg, ac yn y 25% uchaf am y ddwy flynedd diwethaf.

Yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch, lefel 5, mewn Saesneg a mathemateg uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac yn cyd-fynd â'r cyfartaledd yn fras mewn gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad ym mhob pwnc yn ei gosod yn yr 50% is. At ei gilydd, dros y pedair blynedd diwethaf, heblaw Saesneg yn 2011 a mathemateg yn 2012, mae perfformiad yr ysgol wedi'i gosod yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2013, yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad bechgyn ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ac ar y deilliant uwch (deiliant 6) mewn llythrennedd a mathemateg yn well na pherfformiad merched. Fe wnaeth merched berfformio'n well yn y deilliant disgwyliedig ac uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn well na pherfformiad merched mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac mae bechgyn yn perfformio'n well ar y lefel uwch (lefel 5) mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, nid yw disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi perfformio cystal â disgyblion eraill yn y Cyfnod Sylfaen.

Y duedd ar gyfer y pedair blynedd diwethaf, heblaw 2009-2010, yw bod disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cystal â disgyblion eraill erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

yn dynodi'r trothwy – dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 94 | 84<br>89%<br>98% | 10<br>11%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 94 | 90<br>96%<br>92% | 4<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 94 | 91<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 94 | 93<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 94 | 91<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 94 | 89<br>95%<br>96% | 5<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 94 | 94<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 93 | 91<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 92 | 85<br>92%<br>91% | 7<br>8%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 94 | 91<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 70<br>75%<br>77% | 23<br>25%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 94 | 86<br>91%<br>84% | 8<br>9%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r trothwy – dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 56 | 36 | 17 | 0 | 0 | 3 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 56 | 39 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 56 | 36 | 19 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 56 | 36 | 19 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 64% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 55 | 15 | 32 | 6 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 58% | 11% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 55 | 34 | 19 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 56 | 34 | 21 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 61% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 55 | 26 | 22 | 2 | 0 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 55 | 34 | 18 | 1 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 33% | 2% | 2% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 56 | 37 | 19 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 56 | 42 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 75% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 55 | 35 | 13 | 4 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 24% | 7% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 56 | 34<br>61% | 17<br>30% | 3<br>5% | 1<br>2% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 55 | 34<br>62% | 20<br>36% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 56 | 28<br>50% | 22<br>39% | 3<br>5% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 56 | 35<br>62% | 18<br>32% | 2<br>4% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 52 | 24<br>46% | 21<br>40% | 2<br>4% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 55 | 31<br>56% | 21<br>38% | 3<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 56 | 32<br>57% | 20<br>36% | 4<br>7% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mary Elspeth Dyas | Arolygydd Tîm |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Mary Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Bowen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Hocking | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.